

Plant Coll Cyfleoedd Coll

186,000 o
achosion o
blant coll yn
Lloegr

x5

Y nifer o weithiau ar gyfartaledd
yr adroddwyd bod plant sydd â
phrofiad o fod mewn gofal a aeth
ar goll ledled Cymru a Lloegr ar
goll y llynedd

x2

Mae plant sydd â phrofiad o
fod mewn gofal ddwywaith
yn fwy tebygol o fynd ar goll
dro ar ôl tro na phlant eraill
yng Nghymru

x3

Mae plant sydd â phrofiad o fod
mewn gofal deirgwaith yn fwy
tebygol o fynd ar goll dro ar ôl tro
na phlant eraill yn Lloegr

13,600 o
achosion o
blant coll yng
Nghymru

Cymharu digwyddiadau coll o blant sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal ledled Cymru a Lloegr

Mae plant ledled Cymru a Lloegr yn mynd ar goll o'u cartrefi ac o ofal ar gyfradd frawychus. Adroddir bod plentyn ar goll bob awr yng Nghymru. Yn Lloegr, adroddir bod mwy nag ugain o blant ar goll bob awr.



Mae plant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal yn sylweddol fwy tebygol na phlant eraill o gael eu hadrodd ar goll ledled Cymru a Lloegr. Er hynny, mae'r cymorth y mae plant a phobl ifanc yn ei gael cyn ac ar ôl cyfnod ar goll yn amrywio'n fawr yn ôl awdurdod lleol, ac yn ôl gwlad. Rydym wedi cymharu'r dull o atal ac ymateb i blant coll yn y ddwy wlad, i alw ar ymagwedd well ledled Cymru a Lloegr.

Yn Lloegr, mae rhywfaint o arolygiaeth o'r rhesymau pam mae plant yn mynd ar goll yn bosibl. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn neu berson ifanc sy'n mynd ar goll hawl cyfreithiol i 'Gyfweliad Dychwelyd' annibynnol. Mae hon yn drafodaeth fanwl sydd â'r nod o "nodi ac ymdrin ag unrhyw niwed y mae'r plentyn wedi'i ddioddef [...] a deall a cheisio mynd i'r afael â'r rhesymau pam y rhedodd y plentyn neu'r person ifanc i ffwrdd, helpu'r plentyn i deimlo'n ddiogel a deall bod ganddynt opsiynau i atal achosion ailadroddus".

Methu'r darlun llawn

Nid yw Cyfweliadau Dychwelyd yn ofyniad statudol yng Nghymru, sy'n ei gwneud yn llai tebygol bod yna ddealltwriaeth o yrwyr ar gyfer cyfnodau coll fel mater o drefn. Fodd bynnag, yn ddiweddar rydym wedi cynhyrchu adroddiad 'Methu'r Pwynt', a gefnogir gan fudiadau sector cyhoeddus a thrydydd sector yn ogystal â phob un o'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddau yng Nghymru, yn galw am gynnig cyfweliad dychwelyd annibynnol yn gyfreithiol ofynnol pan fydd plant yn dychwelyd adref.

Newidiadau i ble mae plant yn byw

Yn Lloegr, bu cynnydd sydyn mewn lleoliadau 'Y Tu Allan i'r Ardal', i'r graddau bod dau o bob tri (64%) o blant sy'n byw mewn cartref preswyl bellach yn byw y tu allan i ffiniau codau post eu cartref.

Yn 2018/19, roedd 27% o blant yng ngofal awdurdodau lleol ledled Cymru yn byw mewn lleoliadau y tu allan i'w hawdurdod lleol cartref. Roedd 6% arall o blant yn byw y tu allan i Gymru. Mae plant sy'n byw y tu allan i'r ardal yn agored i fwy o risg o gamfanteisio troseddol neu rywiol ac maent yn fwy tebygol o fynd ar goll na phlant eraill. Adroddodd Cymdeithas y Plant yn ddiweddar fod 71% o heddluoedd wedi codi pryderon am ffactorau risg cynyddol i blant sy'n byw y tu allan i'r ardal.

Yn yr un modd, mae nifer y plant 16 neu 17 oed yn Lloegr sy'n cael eu lleoli mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio wedi mwy na dyblu ers 2009. Mae lleoliadau heb eu rheoleiddio yn cynnwys mathau o leoliadau 'lled-annibynnol' neu 'lety â chymorth' nad ydynt yn cael eu harolygu gan Ofsted.

Polisi	Lloegr	Cymru
Mae gan bob plentyn coll hawl i Gyfweliad Dychwelyd ar ôl dychwelyd o fewn 72 awr		
Mae canllawiau ar Gyfweliadau Dychwelyd yn statudol, sy'n golygu bod yn rhaid i gyrff sector cyhoeddus ei ddilyn		
Gofyniad statudol i berson annibynnol gynnal Cyfweliadau Dychwelyd		
Ymagwedd Hawliau Plant at Blismona wedi'i wreiddio ar draws heddluoedd	*	*
Protocol cenedlaethol ar leihau troseddoli diangen ar blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal		
Prosiect peilot 'Gwarcheidwaid Annibynnol Masnachu Mewn Plant' sy'n cefnogi plant sydd wedi cael eu masnachu neu sydd mewn perygl o hynny	**	
Grwp llywio NYAS sy'n archwilio'r cysylltiadau rhwng cyfnodau pan fydd plant ar goll, troseddu a hawliau plant		

*Cyflwynodd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Plismona Plant a Phobl Ifanc yn 2016. Fodd bynnag, mae heddluoedd yn amrywio yn eu defnydd o'r dull gweithredu.

**Mae cynllun peilot Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol yn weithredol yng Nghymru, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Awdurdodau Cyfuno Gorllewin Canolbarth Lloegr, Croydon, Hampshire, Manceinion ac Ynys Wyth.

Yn 2019, canfu ein Gwasanaeth Cyfweliad Dychwelyd NYAS mai'r rheswm mwyaf cyffredin i blant fynd ar goll yw diffyg cyfathrebu â'u gofalwyr. Arweiniodd hyn at lansio ein hymgyrch Methu'r Pwynt yng Nghymru a Lloegr, sy'n argymhell ffyrdd newydd o leihau achosion o gyfnodau coll ymhlith plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a chynnig gwell amddiffyniad os cânt eu hadrodd ar goll.

Mae tystiolaeth hefyd bod Cyfweliadau Dychwelyd yn lleihau'r tebygolrwydd o gyfnodau coll ailadroddus. Yn Lloegr aeth 11,530 o bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ar goll yn 2018, ac aeth pob un ar goll 6.1 o weithiau ar gyfartaledd. Lle cynigiwyd cyfweliad dychwelyd annibynnol gan NYAS, gostyngodd y rhif hwn i 2.8 gwaith.



Mae NYAS yn elusen gymdeithasol-gyfreithiol sy'n ymgychu dros hawliau pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ledled Cymru a Lloegr, gan hyrwyddo eu lleisiau i gael eu clywed yn y penderfyniadau a wneir amdanynt. Arweiniodd NYAS Cymru grŵp llywio Methu'r Pwynt Cymru Gyfan, gan weithio mewn partneriaeth â'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, a phartneriaid allweddol eraill yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Y llynedd, cyfrannodd NYAS yn Lloegr at adroddiad Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar blant coll a lleoliadau y tu allan i'r ardal a rhoddodd dystiolaeth lafar yn y senedd ar y pwnc hwn.

Mae Nodiadau Briffio Ar draws y Gororau yn gyfres o adroddiadau NYAS sy'n tynnu ar ein profiad o weithio o fewn gwahanol systemau cenedlaethol Cymru a Lloegr. Eu nod yw tynnu sylw at arfer gorau, a lle mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod hawliau pobl ifanc yn cael eu gwarchod yn unol ag UNCRC (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Rhaid i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal dderbyn y gefnogaeth fwyaf effeithiol, ni waeth ble maen nhw'n byw.



national youth
advocacy service
gwasanaeth eiriolaeth
ieuenctid cenedlaethol

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn
gan Lucy Croxton a Ben Twomey
Gaeaf 2020

0808 808 1001 www.nyas.net @NYASservices help@nyas.net